

## CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 12fed Tachwedd, 2018, yn Festri Capel Rhybach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeirydd)  
 Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)  
 Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Carys E. Williams, Siôn Williams  
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)  
 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Michael Strain

### 60. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Llongyfarchodd Y Cyngorydd Gwenan Griffith a'i phriod ar enedigaeth merch fach, Cadi Gwawr, a dymunwyd yn dda iddynt fel teulu.

### 61. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

### 62. **CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 12fed Tachwedd, 2018.

#### **Materion yn Codi**

#### **(a) Eitem 50 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (a) – Arwydd Eglwys Bryncroes**

**Adroddodd** y Clarc ei bod wedi bod mewn cysylltiad pellach â Martin Daniel Williams, Cynorthwydd Technegol, Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, yn ei hysbysu nad oedd arwydd bws ar y gyffordd i bentref Bryncroes bellach a gofyn a fyddai modd cael gosod arwydd arall yno i ddynodi lleoliad yr Eglwys a Ffynnon Fair.

'Roedd Mr. Williams wedi gofyn am fap yn dangos lleoliad Ffynnon Fair ac anfonwyd copi iddo yn dilyn ei dderbyn gan Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir. Anfonwyd nodyn atgoffa at Mr. Williams a dyma ei ymateb: "yr wyf yn dal yn disgwyl am ateb oddiwrth yr adran gludiant o ran yr arhosfan bys. Ddoi dol atoch unwaith y byddaf yn derbyn ateb."

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

#### **(b) Eitem 50 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) – Biniau Halen**

**Cyflwynwyd** adroddiad gan y Gadeiryddes, Y Cyngorydd Glenys Williams, iddi gyfarfod â Mr. Caradog Williams o'r Adran Priffyrdd ar 16eg Hydref "i drafod y syniad

o symud y bin halen o gyffordd Ty Rynn, Lôn Comins, Rhiw, a'i ail-leoli ar allt Coch Moel, Sarn.

Problemau gall godi:

1. Pobl sy'n byw yn agos i gyffordd Ty Rynn yn cwyno oherwydd y symudiad, damwain yn digwydd a.y.y.b. Penderfyniad y 'Cyngor Plwyf' fyddai'n delio â'r materion hyn. Hwyl oedd yn gyfrifol am y symud felly y cwynion yn cyrraedd y Cyngor Cymdeithas.
2. Cost – Am edrych i mewn i hyn. Efallai yn byddai'n rhatach prynu bin newydd, ei lenwi a'i osod ar allt Coch Moel. Efallai y byddai'n cymeryd dwy awr i wagio'r bin, ei symud a'i ail-lenwi.
3. Rhywun yn dwyn y bin neu ei ddifrodi yna y Cyngor Plwyf fyddai'n gyfrifol am y gôst o'i drwsio neu osod bin newydd gan mai dewis hwyl oedd symud y bin yn y lle cyntaf.
4. Dangoswyd (sef y Gadeiryddes) man addas i osod y bin ar allt Ty Engan. Caradog Williams yn dewis man addas yn uwch i fyny ar ganol allt Ty Engan – yn uwch i fyny na'r ddwy gwter a fyddai'n cymeryd y dwr. Marciodd y ffordd wrth ochr y man a ddewiswyd.

Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn yr Adran Priffyrdd a byddwn yn derbyn:

- (i) Pris symud y bin a'i lenwi gyda halen.
- (ii) Pris gosod bin newydd a'i lenwi gyda halen.

Diolchais i Caradog am ddod i'n cyfarfod i drafod ein syniad/cais am gael symud bin rhif 26 o gyffordd Ty Rynn, Lôn Comins i allt Coch Moel.”

Diolchwyd i'r Gadeiryddes am gymryd o'i hamser i gyfarfod Mr. Caradog Williams ac am yr adroddiad gynhwysfawr.

Yn dilyn trafodaeth pryd y trafodwyd y syniad o'r trigolion lleol yn cael eu barn ynglyn a symud y bin, **penderfynwyd** gohirio er derbyn pris symud y bin a phris bin newydd yn gyntaf.

### **(iii) Eitem 41 – Materion Ffyrdd – cymal 3 – Biniau Halen**

**Cyflwynwyd** atebiad Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol (dros dro), Cyngor Gwynedd, y byddai'n "trefnu fod y ddau fin (rhif 22 ac 18) yn cael eu llenwi" ac fod y cais am gael symud bin 26 wedi cael ei anfon ymlaen i'r Peiriannydd Ardal.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

## **63. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais yn ystod y mis.

## **64. MATERION FFYRDD**

**Cyflwynwyd** atebiad Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw ym mis Medi (yn anffodus daeth y llythyr i law ddau ddiwrnod ar ôl cyfarfod y mis hwn). Rhoddir isod ddyfyniad o'r llythyr:

“(a) Mae'r gwll rhwng y B4413 a phentref Bryncroes wedi derbyn sylw.

(b) Ffordd rhwng cyffordd Lôn Goch a Threfaes Fawr

Mae'r ffordd yma wedi ei chynnwys eisoes ar y rhestr waith ail-wynebu dymunol Ardal Dwyfor. Drwg gennyf hysbysu na allaf gadarnhau pryd caiff y ffordd yma ei hail-wynebu ar hyn o bryd. Fe gedwir y ffordd mewn cyflwr derbyniol yn unol â threfniadau archwilio ac ymateb i ddiffygion, Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd cyfredol y Cyngor.

(c) Torri Gwair Gwledig

Fel y gwyddoch yn sgil yr angen cwtogi gwariant fe leihawyd amllder torri gwait gwledig ers 2014/15 i unwaith y flwyddyn. Er hynny, mae yna rai lleoliadau penodol dros yr ardal wedi ei adnabod o fod angen toriadau ychwanegol. Darperir gwaith yn y lleoliadau yma ar sail risg. Pe bae gennych lleoliadau penodol ychwanegol dan sylw, byddwn yn fodlon asesu'r lleoliadau gennych. Er eich gwybodaeth 'toriad dewisol' ddarparwir gan y Cyngor hyd gloddiau terfyn ar bwys ffyrdd gwledig. Cyfiawnheir y gwaith er lles diogelwch y ffyrdd. Dylid nodi fodd bynnag fod strwythur a chyflwr y terfynau clawdd, yn graidd yn y mwyafrif llethol o sefyllfaoedd, yn gyfrifoldeb perchennog/deilydd dilys y tir cyfagos. Disgwylaf i dderbyn manylion unrhyw leoliad penodol gennych.”

### **Penderfynwyd**

(1) Derbyn ymateb y Peiriannydd Ardal ac ymateb i gymal (c) fel a ganlyn:

Gofyn iddo ystyried cynnwys y ffordd o Sarn am Beudy Bigyn, Tudweiliog, fel lleoliad ac angen toriad ychwanegol. Mae'r ffordd yma yn brysur, gyda bysiau ysgol, trafniadaeth fferm, a nifer o fodurwyr yn ei defnyddio'n ddyddiol.

Hefyd gofyn iddo ystyried toriad ychwanegol ar y tro i fyny o Feddygfa Rhydbach am Bryngwydyn, Botwnnog - mae modurwyr yn teithio ar beth cyflymder i lawr am Fotwnnog ac oherwydd y tyfiant sydd yn disgyn i'r ffordd ar y tro yma mae'r teithwyr sydd yn mynd i fyny yn gorfod dal mwy i ganol y ffordd. Eto gall hyn greu perygl gwirioneddol i fodurwyr yn teithio i fyny ac i lawr.

(2) Anfon y materion a ganlyn at Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd :

(a) Angen agor y ffos ym Mhen Lon Fault, Rhiw - mae'r dwr yn rhedeg i lawr allt Ty Engan. Yn ol a ddeallir gan y cwynydd mae addewid i wneud hyn ers tua wyth mlynedd.

(b) Y gwter ger Capel Tyddyn, Bryncroes, angen ei glanhau.

(c) y ddwy gwter ar allt Ty Engan, Bryncroes angen eu glanhau.

(ch) y gwteri cyn ben lon Faedre, Botwnnog (rhwyng Lon a phen lon Faedre) angen eu glanhau.

(d) y ffordd heibio Cae Newydd Meillionydd, Bryncroes - tyllau dwfn yn y ffordd a mwd yn creu perygl i fodurwyr a cherddwyr.

(dd) Ty'r Ysgol Botwnnog - dwr ar draws y ffordd yma.

(e) Yr arwydd 40 mya wrth ddod i fyny o Hebron am Benygroeslon wedi cael ei daro i lawr gan gerbyd trwm. Yn ol yr achwynydd mae'r arwydd wedi osod ormod ar ochr y clawdd a dylai gael ei ail-leoli fwy i fewn.

(f) Llifogydd ger Ty Mawr Capel - mae'r achwynydd yn credu fod cwter wedi cau.

(g) Mae cwynion fod ceir yn pasio ei gilydd yn syth wedi dod rownd cornel Pont-y-Gof i fyny am Sarn, ac yn wir bu damwain ar y ffordd yma oherwydd hyn yr wythnos diwethaf. Cais y Cyngor yw am i'r arwydd 30mya gael ei ymestyn heibio penlon Trefaes, Botwnnog ac hefyd fod llinellau dwbl yn cael eu gosod ar y ffordd heibio'r un penlon er rhwystro modurwyr rhag pasio.

(3) Gofyn i'r Heddlu ddod i Fotwnnog yn amlach – mae'r ffordd ger Ysgol Pont-y-Gof yn beryglus iawn pan mae'n amser cyrraedd a gadael yr Ysgol.

## 65. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.

## 66. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

**Cyflwynwyd** adroddiad Is-bwyllgor Ariannol y Cyngor a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson pryd 'roedd yn bresennol Y Cyngorydd Glenys Williams (yn cadeirio), Y Cyngorwyr David Brunelli, Ifor Owen a Glyn Roberts.

Trafodwyd materion a godwyd gan yr Archwilwyr Allanol, BDO fel a ganlyn:

*Gwerth Asedau*

Adroddodd y Clarc mai gwerth asedau'r Cyngor ar hyn o bryd oedd:

Tair mainc yn cael eu hyswirio i gyfanswm o	£ 1,157.32
Ffiniau'r fynwent a'r giat yn cael ei hyswirio i	£10,042.70
Lloches bws yn cael ei yswirio i	£ 6,592.57
Cynnwys yn y swyddfa	£ 1,040.22
<b>Cyfanswm yr asedau yn</b>	<b>£18,832.81</b>

Teimlad yr Is-bwyllgor oedd fod y gwerthoedd uchod yn dderbyniol.

*Cronfeydd wrth gefn*

Mae penderfyniad eisoes wedi ei gymryd yng nghyfarfod 11eg Mehefin, 2018, ynglyn a'r incwm a'r gwariant fel a ganlyn:

**“Penderfynwyd** cyflwyno adroddiad gyffelyb i'r rhai blaenorol ar gyfer lonawr ymhob blwyddyn ond i adrodd yn ychwanegol ar y gwariant yn erbyn yr incwm bob Mehefin, Hydref, a Mawrth.”

Cyflwynodd y Clarc daenlen yn dangos incwm a gwariant er 1af Ebrill, 2018, a gofynnodd a oedd hyn yn ddigonol i ddangos sefyllfa ariannol y Cyngor bob mis.

Teimlad yr Is-bwyllgor oedd fod yr uchod yn ddigonol ac i'r Clarc baratoi un copi o'r incwm a gwariant ar gyfer pob mis.

*Arian Rhodd*

Tynnwyd sylw gan yr Archwilwyr nad oedd y cwestiwn ar y ffurflen flynyddol wedi ei ateb yn llawn sef nid oedd y Clarc wedi croesi y geiriau :

“Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod ganddo rhwymedigaeth gyfreithlon i dalu rhodd arian gwasanaeth i gyflogeion” gan adael y geiriau “nid oes gan y Cyngor unrhyw rhwymedigaeth neu fwriad i dalu arian rhodd i gyflogeion.”

Nododd yr Is-bwyllgor hyn a gofyn i'r Clarc sicrhau fod y geiriad yn cael eu dileu y tro nesaf – nid yw'r Cyngor yn talu i'r aelodau.

## *Argymhellion yr Archwilydd Mewnol*

Nodwyd fod y materion hyn wedi eu hystyried yng nghyfarfod 11eg Mehefin, 2018, eitem 25 – Archwilio'r cyfrifon

### *Y Brosesu Gyllidebu*

Gweler cofnod o dan 'cronfeydd wrth gefn' uchod.

### *Pwerau Gwariant – pwer Adran A137 yn cael ei ddefnyddio'n anghywir*

Adroddodd y Clarc ei bod yn siomedig iawn fod hyn wedi ei godi yn awr gan mai yr Adran yma a ddefnyddiwyd dros flynyddoedd maith i wneud cyfraniadau ariannol i Gymdeithasau/Sefydliadau a.y. ac nad oedd yr Archwilwyr Mewnol nac Allanol wedi tynnu sylw at y ffaith o'r blaen.

Dywedodd y byddai'n gwneud ymholiadau gyda Un Llais Cymru er canfod beth yw ein hawliau o dan y gwahanol Adrannau a byddai'n adrodd yn ôl ym mis Ionawr pryd y bydd y cyfarfod yn ystyried ceisiadau o'r fath.

'Roedd yr Is-bwyllgor hapus gyda hyn.

**Pendefynwyd** derbyn adroddiad yr Is-bwyllgor Ariannol a gweithredu yn unol â'r argymhellion.

## 67. **IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**

**Cyflwynwyd** adroddiad o gyfarfod o Is-bwyllgor Y Fynwent a gynhaliwyd 8fed Hydref, 2018, fel a ganlyn:

“Adroddiad o Is-bwyllgor y Fynwent a gynhaliwyd Nos Lun, 8fed Hydref, 2018, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 8.35 p.m. hyd 8.45 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (yn cadeirio)  
Y Cyngorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts

### **CLADDU LLWCH**

**Adroddodd** y Clarc y bu i Mrs. Julie Roberts, Pendre, Sarn, gynt alw i'w gweld ynglyn a chladdu llwch ei thad a'i mham ym Mynwent Llandegwning. Arferai ei rhieni fyw ym Motwnnog felly yn dod o fewn hawliau claddu'r Cyngor.

Y cwestiwn ofynwyd beth fyddai'r gost o gladdu'r ddwy gasged – y pris am gladdu llwch yw £120.

**Penderfynwyd** gan fod y ddwy gasged yn cael eu claddu ar yr un pryd mai un taliad o £120 fyddai.”

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

68. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Cyngor Gwynedd – tâl am archwilio'r cyfrifon yn fewnol

£162 yn cynnwys  
TAW

69. **AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL SIR GWYNEDD**

**Bellach** mae'r argymhellion terfynol i law gan Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Rwyf wedi atodi copiau o'r tudalennau perthnasol ond mae croeso i unrhyw un gael gweld y ddogfen yn ei chyfanrwydd – gadewch i mi wybod.

Gall y ddogfen hefyd i'w gweld ar wefan y Comisiwn [www.ldbc.gov.wales](http://www.ldbc.gov.wales)

(yn anffodus nid yw cyfeiriad y wefan Gymraeg ar y llythyr)

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

70. **CYLCH YR IAITH**

**Cyflwynwyd** llythyr oddi wrth Howard Huws, Cydlynnydd Ymdyrch Dwristiaeth Cylch yr Iaith yn amgau eu sylwadau ar dwristiaeth yng Ngwynedd gyda chais penodol yn ymwneud a pholisi twristiaeth y Cyngor Sir. (Copi o'r llythyr wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).

Yn dilyn trafodaeth eang ar y mater **pendderfynwyd** cefnogi Cylch yr Iaith.

71. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL**

**Cyflwynwyd** llythyr oddi wrth Mrs. Glenda Burke, Clerc Cyngor Tref Porthmadog, yn hysbysu o'u dymuniad i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Lyn ac Eifionydd yn 2021 neu 2025, ac y byddai "2025 yn arbennig o arwyddocaol gan y bydd hi'n hanner can mlynedd ers Eisteddfod Bro Dwyfor yng Nghriccieth a 70 mlynedd ers i'r Eisteddfod Genedlaethol gael ei chynnal ym Mhwlheli ddiwethaf."

**Penderfynwyd** cefnogi'r syniad o wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol ym 2025.

72. **A OES HEDDWCH?**

**Rhannwyd** taflenni dderbyniwyd gan Mrs. Liz Saville Roberts, AS, yn hysbysu o ddigwyddiad ym Mlaenau Ffestiniog ar ddydd Sadwrn, 17eg Tachwedd, 2018, i gofio gwrthwynebwyr cydwybodol y Rhyfel Byd Cyntaf.

73. **RALI GOFFA JAMES TRENHOLME**

**Derbyniwyd** er gwybodaeth lythyr gan Glwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. fod y Rali uchod i'w chynnal ar 17/18 Tachwedd, 2018 ac fod y trigolion lle 'roedd y rali yn pasio yn ymwybodol o hynny.